



Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 25 Mehefin 2026 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

Yn bresennol:

Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

1. Croeso ac ymddiheuriadau: Dechreuodd y cyfarfod gyda chyfarchion, a chafodd presenoldeb ei gadarnhau.

2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau: Ni ddatganodd y Bwrdd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol: Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu hailddosbarthu, a gwnaed cais i hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth bod y cofnodion wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Cafodd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol eu trafod a'u cydnabod.

4. Cyfarfod â'r Gweinidog

Nododd yr aelodau gadarnhad y byddai cyfarfod rhagarweiniol yn cael ei gynnal rhwng y Gweinidog a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol ar 13 Gorffennaf 2026 am 12.30pm. Bydd y cyfarfod yn gyfle i sefydlu cydberthnasau a thrafod trefniadau ymgysylltu yn y dyfodol. Nododd yr aelodau fod y Gweinidog yn dal i ystyried yr adolygiad o lywodraethiant, a gwnaethant gytuno y byddai cael gwybodaeth ymlaen llaw'n ddefnyddiol er mwyn ei gwneud yn bosibl cael trafodaeth wybodus cyn y cyfarfod.

5. Adolygiad o lywodraethiant

Rhoddwyd diweddariad hefyd ynghylch yr adolygiad o lywodraethiant. Cafodd yr aelodau wybod bod trafodaethau'n parhau â Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru, a bod sesiwn bellach a fyddai'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried er mwyn

darparu gwybodaeth fanwl am yr adolygiad pan fyddai'r Dirprwy Weinidog yn gwneud cyhoeddiad.

6. Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol – ei strwythur yn awr ac yn y dyfodol

Mynegwyd cefnogaeth gref dros gael adroddiad blynyddol sy'n fyrrach, sydd â mwy o ffocws ac sy'n fwy effeithiol. Yn gyffredinol, roedd yr aelodau o blaid cadw'r pum cwestiwn diogelu fel prif fframwaith, ac roeddent yn cytuno y dylid rhoi mwy o bwys ar flaenoriaethau, cyfeiriad strategol ac effaith yn y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio ar adrodd ynghylch y gorffennol yn unig. Nododd y Bwrdd fod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref, bod yn rhaid iddo gynnwys gwybodaeth am y cymorth a ddarparwyd i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, asesu trefniadau diogelu ar draws Cymru, adnabod gwaith dysgu ac arfer da, a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r adroddiad blynyddol fod yn fwy strategol a chryno ac y dylai ganolbwyntio'n fwy helaeth ar y dyfodol, ac y dylid datblygu strwythur a thempled diwygiedig a'u dosbarthu er mwyn cael sylwadau arnynt. At hynny, roedd yr aelodau o blaid dull drafftio cydweithredol.

7. Diweddariad ynghylch y Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu

Rhoddodd y Cadeirydd adborth ar ôl iddo fynychu'r Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu. Nododd yr aelodau'r holl ganllawiau ynghylch gweithdrefnau ac ymarfer sy'n cael eu cyhoeddi'n genedlaethol, a'r angen am eglurder ynghylch rôl y Bwrdd Cenedlaethol o ran datblygu a goruchwyllo. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch perchnogaeth ar ganllawiau cenedlaethol ac ynghylch eu dosbarthu, eu gweithredu a mesur eu heffaith, a mynegodd yr aelodau bryder am y cymhlethdod y gallai ymarferwyr fod yn ei wynebu wrth geisio ymdopi â chanllawiau o sawl ffynhonnell. Roedd yr aelodau'n cytuno bod angen dealltwriaeth well o'r trefniadau llywodraethiant sy'n sail i weithdrefnau cenedlaethol, y berthynas rhwng canllawiau cenedlaethol a chanllawiau rhanbarthol, gwaith monitro a gwerthuso canllawiau ymarfer, a sut y mae disgwyl i ymarferwyr roi canllawiau ar waith yn gyson.

8. Rhaglen ymchwil a blaenoriaethau'r dyfodol

Bu'r Bwrdd yn ystyried gwaith posibl yn y dyfodol gyda Phrifysgol Metropolitan Manceinion. Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys a ddylid comisiynu dadansoddiad thematig pellach o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, adolygiad posibl o adroddiadau blynyddol Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar draws Cymru, effaith ac effeithiolrwydd argymhellion y Bwrdd Cenedlaethol, datblygu set ddata genedlaethol am ddiogelu, ac archwilio ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion diogelu. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai trafodaethau â'r tîm ymchwil barhau cyn bod penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud am gomisiynau yn y dyfodol.

9. Cynhadledd Ddiogelu 2026 y Bwrdd Cenedlaethol

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ynghylch cynlluniau ar gyfer Cynhadledd Ddiogelu'r Bwrdd Cenedlaethol a gynhelir ar 4 Tachwedd 2026. Mae'r rhaglen arfaethedig yn cynnwys sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd, cyfraniad Gweinidogol sydd i'w gadarnhau, safbwynt defnyddiwr ar ddiogelu oedolion, datblygiadau'n ymwneud â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a

lles pennaf, datblygiadau o ran Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Oedolion, cyfraniad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, a chyflwyniadau posibl o'r byd academiaidd ac o faes ymchwil. Croesawodd yr aelodau y rhaglen arfaethedig. Bydd siaradwyr amgen yn cael eu nodi rhag ofn y bydd eu hangen, a bydd y cyfarfod sydd ar ddod â'r Gweinidog yn gyfle i estyn gwahoddiad i'r Gweinidog.

10. Digwyddiad Bord Gron ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant a Digwyddiad Bord Gron ynghylch Data

Nododd yr aelodau mai'r bwriad yw cynnal y Digwyddiad Bord Gron ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ar 15 Medi 2026 a chynnal y Digwyddiad Bord Gron ynghylch Data ar 17 Medi 2026. Parhaodd y drafodaeth ynghylch datblygu set ddata genedlaethol am ddiogelu, yr angen i gasglu data mewn modd cyson ar draws Cymru, y trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner, a phwysigrwydd cynnal momentwm gan gydnabod mai Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am weithredu.

11. Adolygu trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

Amlinellodd y Cadeirydd gynlluniau i adolygu trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai gweithgarwch ymgysylltu fod yn bwrpasol, y dylai cydberthnasau â rhanddeiliaid gael eu blaenoriaethu'n ôl eu pwysigrwydd strategol, y dylai'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol barhau i fod yn rhanddeiliaid allweddol, ac y dylai'r adolygiad nodi'r deilliannau a ddisgwylir o weithgarwch ymgysylltu.

12. Cyfathrebu a datblygu'r wefan

Rhoddodd yr Ysgrifynyddiaeth ddiweddariad ynghylch gwaith a gyflawnir i ddiweddaru gwybodaeth am aelodaeth y Bwrdd, cyhoeddi cofnodion sydd heb eu cyhoeddi eto, gwella hygyrchedd a hwyluso defnydd o'r wefan, a diweddaru cynnwys y wefan ac unrhyw negeseuon. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r wefan fod yn ganolfan adnoddau diogelu, cynorthwyo ymarferwyr, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd, darparu llwybrau cliriach at gyngor am ddiogelu a gwasanaethau diogelu, a dangos gweithgarwch, cyhoeddiadau a gwaith dysgu'r Bwrdd Cenedlaethol. At hynny, bu'r aelodau yn trafod yr angen i holl aelodau'r Bwrdd gyfrannu i weithgarwch cyfathrebu a chynnwys y wefan yn y dyfodol.

13. Gweithgarwch ymgysylltu'r Cadeirydd

Adroddodd y Cadeirydd ynghylch cyfarfodydd rhagarweiniol a gynhaliwyd â rhanddeiliaid allweddol, a oedd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal ag uwch-gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, a'r farn oedd y byddai'r adolygiad o lywodraethiant yn gyfle i ailwampio'r berthynas rhwng y Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd cynnal annibyniaeth y Bwrdd Cenedlaethol, a chytunwyd i ymgysylltu'n fwy rheolaidd ag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.